Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar
Nos Lun 1af Rhagfyr, 2025 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn
Minutes of a Meeting of Trawsgoed Community Council held on Monday 1st December, 2025
at 7.30 p.m. held at Llanfihangel-y-Creuddyn School.

**Presennol/Present**: Cyng./Cllr. A. Richards, (Cadeirydd/Chair)
Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. E. Lewis,
Cyng./Cllr. L. Leyshon, Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

**Ymddiheuriadau / Apologies**: Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. M. Davies,
Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans,

188. **Materion Personol** — **Personal Matters**

189. **Datgelu Buddiannau Personol**
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.

**Disclosure of Personal Interest**
Members were reminded to declare an interest when discussing items.

190. **Asesiad Risg ac Asedau**
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.

**Risk and Asset Assessment**
There were no matters arising regarding Assets.

191. **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**
Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion 20fed Hydref 2025, cynhigiwyd ac eiliwyd cywirdeb gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. E. Lewis.

**Minutes of the Last Meeting**
The following minutes were accepted 20th October, 2025; confirmed and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan and Cllr. E. Lewis.

192. **Materion yn Codi o'r Cofnodion** — **Maters Arising from the Minutes**

193. Maes Chwarae Maes y Felin, Llanafan.
Dim datblygiadau pellach o ran les Cae Chwarae Maes y Felin.

Maes y Felin Playing Field, Llanafan
No further developments on the Maes y Felin Playing Field lease.

Cadarnhaodd y Clerc, yn dilyn cais gan y Cyngor Bro, fod Dŵr Cymru wedi diffodd y cyflenwad dŵr ar y safle. Yn dilyn hyn roedd yna swm o £90.20 yn ddyledus am y cyfnod 12/07/2025 i 23/10/2025. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. I. Leyshon ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner.

The Clerk confirmed, following a request from the Community Council, that Welsh Water had disconnected the water supply on site. Following this action there was an amount of £90.20 due for the period 12/07/2025 to 23/10/2025. Payment was proposed by Cllr. I. Leyshon and seconded by Cllr. P. Bonner.

Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt.

A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon.

| | | |
|---|---|---|
| 194. | Cwlfert/ Drain ddŵr agored wrth ben lôn Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, gwaith wedi dechrau ond heb gwblhau a'r lleoliad yr un mor beryglus.<br>Cysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir yn ymholi a fyddid yn tynnu sylw'r perchennog tir i'r sefyllfa gan i'r Cyngor Sir nodi mai cyfrifoldeb perchennog tir oedd y gwaith. | Culvert/Open drain by Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, work started but not completed with the location still as dangerous. Further contact with the County Council if they would be drawing attention to the landowner as the County Council has noted that the work is the responsibility of the land owner. |
| 195. | Nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Llanafan a Brynafan angen sylw. | A number of pot holes between Llanafan and Brynafan needing attention. |
| 196. | Sefyllfa o ddŵr yn cronni rhwng Y Gors a Penffordd yn achosi problemau eto er i Gyngor Sir Ceredigion drefnu gwneud gwaith o roddi drain ddŵr newydd ar y safle rai misoedd yn ôl. | Rain water is causing flooding between New Cross and Penffordd despite Ceredigion County Council organising drainage work on the site several months ago. |
| 197. | Dwr glaw yn llifo o'r caeau ac achosi dwr i gronni a'r ffordd i dorri heibio i Bryngibdda. | Rain water from the fields causing flooding and eroding of the road past Bryngibdda. |
| 198. | Cyflwr y ffordd angen sylw o Lanafan, heibio Brynafan ac i lawr i gyfeiriad New Row. | Road condition requiring attention from Llanafan, via Brynafan and down towards New Row. |
| 199. | Mae arwydd Llanfihangel-y-Creuddyn ar gyffordd heibio Sarnau wedi diflannu ac atgoffir y Cyngor Sir fod arwydd Pentre Cnwch Coch parhau heb ail-osod. | The sign of Llanfihangel-y-Creuddyn on the junction of Sarnau hill has disappeared and the County Council is reminded that the Village Sign for Cnwch Coch has not been returned. |
| 200. | Arwydd ffordd am Lanfihangel-y-Creuddyn angen ail-osod ar yr A4120 | Direction sign for Llanfihangel-y-Creuddyn on the A4120 needs attention. |
| 201. | Mae bin halen ar waelod rhiw i Lanfihangel-y-Creuddyn wedi cael difrod. | Salt bin at bottom of Sarnau Hill has obtained damage. |
| 202. | Yr angen ail-leoli polyn cornel gardd Glanaber yng Nghnwch Coch yn dilyn gwaith diweddar ar ddraen dŵr. | A corner stone pole of garden of Glanaber in Cnwch Coch is in need of repositioning following recent work on a water drain. |
| 203. | Tyllau yn y ffordd rhwng Glanyrafon a Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn ac ar ben y rhiw rhwng Cnwch Coch a Llanfihangel-y-Creuddyn. | Potholes in the road between Glanyrafon and Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn and at the top of the hill between Cnwch Coch and Llanfihangel-y-Creuddyn. |
| 204. | Nodyn atgoffa bod llwybr cerdded yn Llanafan angen sylw sylweddol. Ymateb wedi derbyn gan Gyngor Sir Ceredigion byddid yn darparu rheilen llaw ar y safle. | A reminder that a footpath in Llanafan requires considerable attention.<br>Response received from Ceredigion County Council that a handrail would be provided on site. |

205. Coed o eiddo preifat wedi cwympo i fewn i Dir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn, perchenog y coed yn ymwybodol.

Trees from private property have fallen onto the Common Land, Llanfihangel-y-Creuddyn. Owner aware of the situation.

206. Darn o'r ffordd A4340 yn rhoi rhwng Abermagwr a mynediad am Lanfihangel-y-Creuddyn.

Section of the A4340 roadside giving way between Abermagwr and the access for Llanfihangel-y-Creuddyn.

207. Tyllau yn y Ffordd angen tynnu sylw'r Cyngor Sir:
Ganol Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn gan gynnwys ar y ffordd heibio ochr yr Eglwys;
Nifer o dyllau dwfn a mawr ar hyd y ffordd ar Rhiw Sarnau, Llanfihangel-y-Creuddyn;

Potholes to be brought to the attention of the County Council:
Llanfihangel-y-Creuddyn Village including the road alongside of the Church;
A number of deep and large potholes along Sarnau Hill.

208. Yn dilyn y Cyngor Bro yn tynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion am sefyllfa rhai o'r gwrychoedd o eiddo preifat ardal Cnwch Coch, tuag at New Row a Llanafan mae un o'r perchnogion tir wedi torri y sietynnau o'u heiddo hwy. Y Cyngor Sir mewn cyswllt gyda gweddill y perchnogion tir i sicrhau y cymerir camau i wneud y gwaith.

Following the Community Council drawing the attention of Ceredigion County Council to the situation of some of the hedgerows of private properties in the Cnwch Coch, road towards New Row and Llanafan area, one of the landowners has cut back the growth of their property. The County Council is in contact with the remaining landowners to ensure that action is taken to carry out the work.

209. **Materion Cyllidol**

**Financial Matters**

210. Gohirir trafodaethau ar osod y gyllideb a'r praesept tan y cyfarfod nesaf oherwydd nifer o ymddiheuriadau yn y cyfarfod hwn.

Discussions on Budget setting and Precept to be deferred until next meeting due to number of apologies at this meeting.

211. **Ceisiadau Cynllunio**

**Planning Applications**

212. A250818 Dolgwybedin, Llanafan, Aberystwyth
Proposed erection of a new agricultural dairy building
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio ond croesawodd Cyngor Bro Trawsgoed y cais gan Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion i'r ymgeisydd baratoi Datganiad Draenio.

A250818 Dolgwybedin, Llanafan, Aberystwyth
Proposed erection of a new agricultural dairy building
There were no objection to the planning application but Trawsgoed Community Council welcomed the request from Ceredigion County Council's Highways Department for the applicant to prepare a Drainage Statement.

213. **Gohebiaeth**

**Correspondence**

214. **Rhannu Gwybodaeth**

**Sharing of Information**

215. Twll mawr ar y ffordd rhwng Neuadd Llanafan a'r B4340.

Large Pot hold on the road between Llanafan Hall and the B4340.

216. Mae cyflwr y ffordd o amgylch Brynafan yn gwaethygu ac angen sylw brys.

Condition of the road around Brynafan is deteriorating needing urgent attention.

217. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 19eg Ionawr 2026 am 7.30y.h. yn Neuadd Lisburn, Llanafan. (dyddiad wedi newid o’r 12/01/2026 oherwydd argaeledd aelodau a’r lleoliad)

**DATE OF NEXT MEETING**
Monday 19th January, 2026 at 7.30p.m. at Lisburne Hall, Llanafan. (date changed from 12/01/2026 due to availability of members and location)